



**GIG**  
CYMRU  
**NHS**  
WALES

Iechyd Cyhoeddus  
Cymru  
Public Health  
Wales

**Unconfirmed Minutes of the Board Meeting  
held on 26 September 2019,  
in Room 3/7, 2 Capital Quarter, Tyndall Street, Cardiff CF10 4BQ**

|                           |       |  |
|---------------------------|-------|--|
| <b>Present:</b>           |       |  |
| Jan Williams              | (JW)  | Chair  |
| Tracey Cooper             | (TC)  | Chief Executive  |
| Jyoti Atri                | (JA)  | Interim Executive Director of Health and Wellbeing   |
| Rhiannon Beaumont-Wood    | (RBW) | Executive Director of Quality, Nursing and Allied Health Professionals                                 |
| Kate Eden                 | (KE)  | Non-Executive Director, Vice Chair and Chair of Quality, Safety and Improvement Committee              |
| Dyfed Edwards             | (DE)  | Non-Executive Director and Chair of Audit and Corporate Governance Committee                           |
| Huw George                | (HG)  | Deputy Chief Executive and Executive Director of Finance and Operations                                |
| Stephen Palmer            | (StP) | Non-Executive Director   |
| Shantini Paranjothy       | (ShP) | Non-Executive Director (University) and Chair of the Knowledge, Research and Information Committee     |
| Judi Rhys                 | (JR)  | Non-Executive Director (Third Sector) and Chair of the People and Organisational Development Committee |
| Quentin Sandifer          | (QS)  | Executive Director of Public Health Services/Medical Director  |
| <b>In Attendance:</b>     |       |  |
| Mark Bellis (from item 7) | (MB)  | Director of Policy, Research and International Development   |
| Liz Blayney               | (LB)  | Board Governance Manager   |
| John Boulton              | (JB)  | Director for NHS Quality Improvement and Patient Safety/1000 Lives                                     |

|                              |       |  |
|------------------------------|-------|--|
| Phil Bushby                  | (PB)  | Director of People and Organisational Development  |
| Helen Bushell                | (HB)  | Board Secretary and Head of Board Business Unit    |
| Lawrence Conway (for item 4) | (LC)  | Chair, Sport Wales                                 |
| Leah Morantz (from item 7)   | (LM)  | Head of Communications                             |
| Sarah Powell (for item 4)    | (SaP) | Chief Executive, Sport Wales                       |
| Reanne Reffell               | (RR)  | Corporate Governance Officer (Secretariat)         |
| Paula Walters (for item 12)  | (PW)  | Head of Programme Management Office                |
| <b>Communication Support</b> |       |  |
| Rhian Huws                   |       | Cwmni Canna Cyfyngedig (simultaneous translation)  |
| Carwyn Williams              |       | Digital Editor                                     |
| Danny Donovan                |       | Digital Communications Manager                     |
| <b>Apologies:</b>            |       |  |
| Sian Bolton                  | (SB)  | Interim Transition Director, Knowledge Directorate |
| Alison Ward                  | (AW)  | Non-Executive Director (Local Authority)           |
| Stephanie Wilkins            | (SW)  | Representative of Staff Partnership Forum          |

*The meeting commenced at 09:00*

|  |
|--|
| <b>PHW52/2019 Welcome</b>  |
| <i>LC and SaP joined the meeting at 09:00</i>  |
| JW opened the meeting and welcomed all present.  |
| JW reminded the Board of the etiquette adopted during each meeting.  |
| JW also welcomed all those joining via livestreaming, confirming that the papers were available on the Public Health Wales <a href="#">internet</a> . JW also confirmed that the Board welcomed contributions in Welsh and the availability of simultaneous translation. |
| <b>PHW53/2019 Apologies</b>  |
| The Board <b>noted</b> the apologies for absence.  |
| <b>PHW54/2019 Declarations of Interest</b>   |
| JR declared an interest in item PHW55/2019, as a Board member of Sport Wales.  |

**PHW55/2019 Strategic Priority Update and Strategic Partnership**

JW extended a warm welcome to Lawrence Conway and Sarah Powell, Chair and Chief Executive of Sport Wales, who had joined the Board to present on the joint partnership working agenda between Sport Wales and Public Health Wales.

JA introduced the session, outlining the importance of the partnership with Sport Wales (and Natural Resources Wales) and the role that the partnership played within strategic priority 3 (promoting healthy behaviours) with contributions also made to strategic priorities 2 and 4.

SaP began by outlining the alignment between Sport Wales and Public Health Wales strategies, both reflecting the Future Generations agenda to improve the physical and mental wellbeing of the population.

LC highlighted Sport Wales' priority areas, which included:

- a systematic approach to improved physical outcomes for school children, advising of the work with schools and young ambassadors to influence the areas of learning around health and wellbeing on the school curriculum.
- ensuring that sport was for everyone. The Board considered a video presentation showcasing how Sport Wales and partners aimed to improve the physical literacy of communities and inspire behavioral changes across all age spectrums.
- discharging a shared system leadership role, and improved strategic partnerships with Public Health Wales, Natural Resource Wales and the Third Sector around the preventative agenda.

The Board reflected on the benefits of physical activity on health protection and obesity levels and the potential links with the first 1000 days programme, amongst other areas. The Board reaffirmed the importance of cultural and community engagement across a wide range of demographics; opportunities to improve engagement with the network of community sports hubs across Wales in a sustainable way, and the development of an intelligence observatory to research further the impact of physical activity on health. Board members went on to discuss the behavioural change agenda, the important focus on active and healthy environments, and a possible index of sports' friendly places.

The Board also considered the value and opportunities in promoting inter-generational sports, particularly linked with physical literacy during early years and enhanced school days to create effective environments.

TC explained that a Building Healthier Wales Co-ordination Group strategy meeting with Sport Wales and Natural Resource Wales would consider local and regional challenges, and the development of a systematic tracking system

across three strategic areas, one of which aimed to reduce physical inactivity.

The Board thanked LC and SaP for their inspiring presentation and looked forward to ongoing joint work in 2020/21.

The Board noted the intention to conduct a deep dive into Strategic Priority 3 at its November 2019 meeting.

**Action: TC/JA**

*LC and SaP left the meeting 10:10*

**PHW56/2019 Minutes from the Board Meeting on 25 July 2019**

The Board **approved** the minutes as an accurate record of the meeting 25 July 2019 ([ref 4.1.260919](#)).

**PHW57/2019 Board Action Log**

The Board **noted** the Action Log ([ref 4.2.260919](#)) and the three open actions. The Board **approved** closure of the actions marked as complete.

**PHW58/2019 Matters Arising**

There were no matters arising.

**PHW59/2019 Chief Executive's report**

*MB and LM joined the meeting at 10:20*

The Board **received** the Chief Executive's Report ([ref 5.260919](#)).

QS provided an update on the development of the National Health Protection Service, advising of the Welsh Government's intention to invest additional funding to strengthen Health Protection services.

QS provided an update on a recent case of Legionnaires disease that had been reported in the media and reaffirmed the intent to ensure that Board members received press releases in advance of media coverage. Board members recalled the review being undertaken of Public Health Services internal escalation and reporting arrangements up to Board level.

**Action: TC / QS**

QS provided an update on the Tuberculosis outbreak in Llwynhendy, Carmarthenshire, confirming that phase 2 of the community screening programme was in place, with patients being offered treatment as appropriate. QS also confirmed the intention to undertake a learning exercise.

TC drew the Board's attention to the Young Ambassadors' Programme and asked for further details on the timing of Young Ambassadors' being elected to attend Board meetings.

**Action: RBW**

MB updated the Board on a Health Impact Assessment workshop, held in collaboration with Welsh Government and key stakeholders to consider the strategic challenges and opportunities around the European Union transition.

MB agreed to provide the Board with an updated briefing.

**Action: MB**

MB confirmed the intention of the British Medical Journal to publish a letter outlining the Public Health Wales Health Impact Assessment on the *Public Health Implications of Brexit in Wales*.

MB went on to update the Board about the proposed Memorandum of Understanding (MoU) between Welsh Government and the World Health Organisation for Investment in Health and Well-being, to elevate equality and reduce inequalities in the population's health. The board would receive the draft MoU.

**Action: HB**

TC drew the Board's attention to a Public Health Wales report into the potential detrimental impact of leaving the European Union on the health and wellbeing of farming communities, with a similar report on the potential impact on fishing communities to follow.

The Board congratulated Sarah Morgan, Diversity and Inclusion Manager and her team on achieving accreditation as Disability Confident Leaders. The Board recognised that the accreditation exemplified the significant progress against the wider equality and diversity agenda.

The Board thanked TC for her report.

**PHW60/2019 Integrated Performance Report**

The Board **received** the performance report ([ref 6.1.260919](#)).

The Board **noted** a forthcoming Board Development session on refreshing and refining current measurable outcomes, linked to the work underway on the role of the full Board and Committees in reviewing outcomes and impact.

**Strategic priorities**

The Board **noted** the progress being made across all strategic priorities.

PB confirmed that Public Health Wales would be submitting a comprehensive response to the current Department of Work and Pensions consultation on potential NHS Pension scheme flexibilities.

**Action: PB**

**Financial Performance**

The Board **considered** the organisation's financial performance, noting that the Audit and Corporate Governance Committee had also reviewed the position at its meeting on the 25 September 2019.

The Board reflected on the Organisational Efficiency Programme saving targets. The Board noted the lack of expected delivery against two elements

of the Workforce work-stream savings and sought further assurance on delivery against the remaining three work-streams. PB advised that the Salary Sacrifice Scheme was on target to achieve the required savings. PB commented on his level of confidence around the Organisational Review yielding enough benefit to meet the target and confirmed his intention to review this.

**Action: PB**

### **People and Organisational Development**

PB advised of the actions underway to improve the capture of directorate appraisal data. The Board commented on the importance of appraisals in the development, performance, and recognition of staff. The Board **looked for** significant improvement in the reporting of midyear appraisals. TC advised that executive team members all had the appraisal completion target as an objective.

**Action: PB**

### **Quality**

The Board **noted** performance against Putting Things Right, and the imminent work currently in progress to strengthen incident reporting arrangements.

The Board **considered** the report and took **assurance** from the organisation's performance at the end of August 2019.

The Board queried the re-submission of identical progress updates at each meeting. HG commented on the way in which directorate leads validated the reports. QS commented on the challenging timeframe to update the report, and the lengthy timeline of some actions. He confirmed his intention to improve on the narrative provided within the report, reinforcing the point that longer term actions may not vary significantly in-year.

**Action: QS**

The Board reflected on the important point around meaningful progress updates, noting that the Quality, Safety and Improvement Committee meeting regularly undertook 'deep dives' into delivery against each of the screening programmes.

The Board commented on the 'performance improvements' section, advising that an additional 'concerns' section would provide a balanced overview. The Board reaffirmed the intention to consider the flow of high level information into Board and Committees at the next Board Development Day.

**Action: HB**

### **PHW61/2019 Update on the Impact of Leaving the European Union**

*JI and SM joined the meeting at 11:40*

The Board **received** the update on the Impact of Leaving the European Union (EU) report ([ref 6.2.260919](#)).

QS highlighted the activities supporting the organisation’s preparedness for leaving the EU, including the refreshment of continuity plans. QS also commented on the close working relationship with Welsh Government and the other UK nations, particularly in relation to health security.

The Board commented on the possible implications on the population’s mental health of leaving the EU, and the organisation’s role in supporting the population health issues. QS and MB highlighted the research in this area, noting that in-depth research would require a greater system wide approach, beyond Public Health Wales itself.

Board members asked about the measures in place to support staff in the event of a ‘no deal’ BREXIT, including advice around getting to work in the event of a disruption to fuel supplies. Board members also inquired about the communication and support provided to families of staff members. PB summarised the advice provided to date and agreed to supply further information at the Board Development day in October.

**Action: PB**

The Board agreed that the preparations for leaving the EU should constitute a major item on the October development day programme.

**Action: TC / QS**

The Board received **assurance** on Public Health Wales’ preparedness for leaving the EU.

**PHW62/2019 Board Assurance Framework**

The Board **received** the Board Assurance Framework ([ref7.1.260919](#))

HB summarised the work underway to overhaul the Board Assurance Framework. This would include a review of all risks presented currently, together with an assessment of the whole approach to quality assurance and the reporting arrangements.

In respect of the risks as reported, the Board noted:

- the remodeling of risk 2 as a matter of priority, for presentation at the November 2019 Board meeting. The Audit and Corporate Governance Committee would oversee compliance with All Wales policies timelines.  
**Action: HB**
- the completion of all accepted recommendations against risk 3.3, Delivery of the Screening for the Future Programme. QS agreed to share the closure report with the Board.  
**Action: QS**
- the revision of risk 5 following receipt of additional funding from Welsh Government, and Building a Healthier Wales developments.
- the need to progress the setting up of the Technology Advisory Forum as a matter of urgency and within this financial year.

**Action: JB**

The Board noted that the Audit and Corporate Governance Committee had considered the report the previous day, although not in the depth discussed at the Board meeting. The revised Board Assurance Framework would set out the relationship between the Board and the Committees in respect of Strategic Risk reporting. It would also focus on enhanced accountabilities through an improved action plan.

**Action: HB/RBW**

The Board **resolved** to approve the revised due dates reported in the report, with the exception of those identified for risk 2.

### **PHW63/2019 NHS Wales Executive Update / Programme Changes**

*PW joined the meeting at 12:00*

#### **NHS Wales Executive**

The Board **received** the NHS Wales Executive Update ([ref 7.2.1.260919](#)).

The Board **considered** Welsh Government's intention to create an Executive Function for the NHS in Wales, the potential implications for Public Health Wales and the 162 members of staff who would be affected.

JB advised of the support provided to staff affected by the move; he was proud of the way in which the team had responded to the news, considering that it provided an opportunity for the refresh and reinvigoration of improvement in Wales. He agreed to outline the services that Improvement Cymru could offer, at a future Board Development session.

The Board **noted** that the People and Organisational Development and the Operations and Finance Directorates would oversee of all human resource / financial implications respectively.

The Board discussed how the governance of the NHS Executive would complement the governance of existing statutory Boards.

The Board thanked JB for his leadership and support during the proposed service transfer to the NHS Executive, noting that the service had produced a social movement of colleagues in NHS, Welsh Government and Social Services, in support of improvement and innovation.

#### **Stop Smoking Wales- Transfer of Staffing into Health Board**

The Board **received** the Stop Smoking Wales - Transfer of Staffing into Health Board Update ([ref 7.2.1.260919](#)). In introducing the report, JA summarised the face to face Smoking Cessation Services scheduled to transfer to NHS Wales Health Boards, noting those functions that would remain within the Public Health Wales remit.

The Board **received** assurance around the appropriate planning of the transfer through engagement with the Health Boards and staff affected.

The Board conveyed their thanks to the Stop Smoking Wales team and the receiving health boards for their support during the preparation to transfer services. The Board resolved to send personal letters to staff members affected.

**Action: JA/JW/TC**

*PW left the meeting at 12:25*

---

**PHW64/2019      Ratification of Chair's Action and Affixing of the Common Seal**

The Board **received** the Ratification of Chair's Action and Affixing of the Common Seal report (ref [7.3.2.260919](#))

The Board **ratified** the Chair's action taken to:

- **approve** an employment based final settlement agreement;
- **approve** a contract extension for the ICNet project.

---

**PHW65/2019      Composite Committee Chair's report**

The Board **received** the composite report from the Committee Chairs' (ref [7.4.1.260919](#)).

**Quality, Safety and Improvement Committee**

KE introduced the report from the meeting on 06 August 2019, commenting particularly on the 2019-20 Clinical Audit plan. RBW confirmed that the amended audit plan now reflected key areas of Public Health practice.

**Audit and Corporate Governance Committee**

DE presented the report from the meeting on 29 May 2019, commenting particularly on the Counter Fraud Service annual assessment assurance rating of 'amber'. HG advised of the steps taken to ensure improved performance, which included a full programme of counter fraud sessions and attendance at the organisation's induction events.

DE also advised that at its meeting held on 25<sup>th</sup> September 2019, the Committee had reviewed a number of internal audit reports, all of which had positive assurance ratings.

**Knowledge, Research and Information Committee**

ShP presented the report from the meeting on 24 July 2019, commenting on the breadth of the work undertaken by the Knowledge Directorate; its links with directorates and alignment with the organisation's strategic priorities.

The Board resolved to **note** the report from Committee Chairs, and the actions identified.

|  |
|--|
| <p><b>Knowledge, Research and Information Committee Terms of Reference</b><br/>The Board <b>received</b> the Knowledge, Research and Information Committee Terms of Reference (<a href="#">ref 7.4.2.260919</a>).</p> <p>In considering the updated Terms of Reference, the Committee recognised the importance of data quality and assurance, both internally and externally. The Committee resolved to <b>approve</b> the Terms of Reference, subject to the following amendment in bold:</p> <p>“The purpose of the Knowledge, Research and Information Committee is to provide advice and assurance to the Board in relation to the quality and impact of our knowledge, health intelligence and research activities and also the data quality and information governance arrangements in the organisation and <b>cross sector where applicable</b>”.</p> <p>The Board agreed that amended Terms of Reference be recirculated to Knowledge, Research and Information Committee members.</p> <p><b>Action: HB</b></p> |
| <p><b>PHW66/2019      Date of next meeting</b></p>   |
| <p>28 November 2019 at 09.00 to be held at Public Health Wales, 2 Capital Quarter, Tyndall Street, Cardiff. CF10 4BZ.</p>  |
| <p>JW closed the meeting in public session, explaining the reasons behind any subsequent meeting in private session.</p> <p style="text-align: center;"><i>The Public Session closed at 12.35</i></p>  |
| <p><b>The Board met in Private Session to consider business of a confidential nature, publicity of which would be prejudicial to the public interest in accordance with Section 1(2) Public Bodies (Admission to Meetings) Act 1960.</b></p>   |



**GIG**  
CYMRU  
**NHS**  
WALES

Iechyd Cyhoeddus  
Cymru  
Public Health  
Wales

**Cofnodion heb eu cadarnhau o Gyfarfod y Bwrdd  
a gynhaliwyd ar 26 Medi 2019,  
Ystafell 3.7, 2 Capital Quarter, Stryd Tyndall, Caerdydd CF10 4BQ**

| <b>Yn bresennol:</b>           |       |   |
|--------------------------------|-------|---|
| Jan Williams                   | (JW)  | Cadeirydd   |
| Tracey Cooper                  | (TC)  | Prif Weithredwr   |
| Jyoti Atri                     | (JA)  | Cyfarwyddwr Gweithredol Iechyd a Lles Dros Dro  |
| Rhiannon Beaumont-Wood         | (RBW) | Cyfarwyddwr Gweithredol Ansawdd, Nyrsio a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd             |
| Kate Eden                      | (KE)  | Cyfarwyddwr Anweithredol, Dirprwy Gadeirydd a Chadeirydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella |
| Dyfed Edwards                  | (DE)  | Cyfarwyddwr Anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol         |
| Huw George                     | (HG)  | Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr Gweithredol Cyllid a Gweithrediadau                      |
| Stephen Palmer                 | (StP) | Cyfarwyddwr Anweithredol  |
| Shantini Paranjothy            | (ShP) | Cyfarwyddwr Anweithredol (Prifysgol) a Chadeirydd y Pwyllgor Gwybodaeth ac Ymchwil              |
| Judi Rhys                      | (JR)  | Cyfarwyddwr Anweithredol (Trydydd Sector) a Chadeirydd y Pwyllgor Pobl a Datblygu Sefydliadol   |
| Quentin Sandifer               | (QS)  | Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Iechyd Cyhoeddus/Cyfarwyddwr Meddygol                      |
| <b>Hefyd yn Bresennol:</b>     |       |   |
| Mark Bellis (o eitem 7 ymlaen) | (MB)  | Cyfarwyddwr Polisi, Ymchwil a Datblygiad Rhyngwladol  |
| Liz Blayney                    | (LB)  | Rheolwr Llywodraethu y Bwrdd  |
| John Boulton                   | (JB)  | Cyfarwyddwr Gwella Ansawdd y GIG a Diogelwch Cleifion/1000 o Fywydau                            |

|                                    |       |  |
|------------------------------------|-------|--|
| Phil Bushby                        | (PB)  | Cyfarwyddwr Datblygu Sefydliadol a Phobl                 |
| Helen Bushell                      | (HB)  | Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Uned Fusnes y Bwrdd     |
| Lawrence Conway (ar gyfer eitem 4) | (LC)  | Cadeirydd, Chwaraeon Cymru                               |
| Leah Morantz (o eitem 7 ymlaen)    | (LM)  | Pennaeth Cyfathrebu                                      |
| Sarah Powell (ar gyfer eitem 4)    | (SaP) | Prif Weithredwr, Chwaraeon Cymru                         |
| Reanne Reffell                     | (RR)  | Swyddog Llywodraethiant Corfforaethol (Ysgrifenyddiaeth) |
| Paula Walters (ar gyfer eitem 12)  | (PW)  | Pennaeth y Swyddfa Rheoli Rhaglenni                      |
| <b>Cymorth Cyfathrebu</b>          |       |  |
| Rhian Huws                         |       | Cwmni Canna Cyfyngedig (cyfieithu ar y pryd)             |
| Carwyn Williams                    |       | Golygydd Digidol   |
| Danny Donovan                      |       | Rheolwr Cyfathrebu Mewnol                                |
| <b>Ymddiheuriadau:</b>             |       |  |
| Sian Bolton                        | (SB)  | Cyfarwyddwr Pontio Dros Dro, y Gyfarwyddiaeth Wybodaeth  |
| Alison Ward                        | (AW)  | Cyfarwyddwr Anweithredol (Awdurdod Lleol)                |
| Stephanie Wilkins                  | (SW)  | Cynrychiolydd o Fforwm Partneriaeth y Staff              |

*Dechreuodd y cyfarfod am 09:00*

|  |
|--|
| <b>PHW52/2019 Croeso</b>   |
| <i>Ymunodd LC a SaP â'r cyfarfod am 09:00</i>  |
| Agorodd JW y cyfarfod a chroesawodd bawb a oedd yn bresennol.  |
| Atgofodd JW y Bwrdd o'r ymddygiad a fabwysiedir yn ystod pob cyfarfod.   |
| Croesawodd JW hefyd y rhai a oedd yn ymuno â'r cyfarfod drwy ffrydio byw, a chadarnhaodd fod y papurau ar gael ar <a href="#">fewnrwyd</a> Iechyd Cyhoeddus Cymru. Cadarnhaodd JW hefyd fod y Bwrdd yn croesawu cyfraniadau yn Gymraeg a bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gael. |
| <b>PHW53/2019 Ymddiheuriadau</b>   |
| <b>Nododd</b> y Bwrdd yr ymddiheuriadau am absenoldeb.   |
| <b>PHW54/2019 Datgan Buddiannau</b>  |
| Datganodd JR fuddiant o dan eitem PHW55/2019, fel aelod o Fwrdd Chwaraeon Cymru.   |

**PHW55/2019 Diweddariad ar y Blaenoriaethau Strategol a'r Bartneriaeth Strategol**

Estynnodd JW groeso cynnes i Lawrence Conway a Sarah Powell, Cadeirydd a Phrif Weithredwr Chwaraeon Cymru, a ymunodd â'r Bwrdd i wneud cyflwyniad ar yr agenda gwaith partneriaeth rhwng Chwaraeon Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Cyflwynodd JA y sesiwn, gan amlinellu pwysigrwydd y bartneriaeth gyda Chwaraeon Cymru (a Cyfoeth Naturiol Cymru) a'r rôl y mae'r bartneriaeth wedi'i chwarae o fewn blaenoriaeth strategol 3 (hyrwyddo ymddygiad iach).

Dechreuodd SaP drwy amlinellu'r gyfatebiaeth rhwng strategaethau Chwaraeon Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru, a sut mae'r ddau gorff yn adlewyrchu agenda Cenedlaethau'r Dyfodol er mwyn gwella llesiant corfforol a meddyliol y boblogaeth.

Amlygodd LC feysydd blaenoriaeth Chwaraeon Cymru, a oedd yn cynnwys:

- dull systematig o wella canlyniadau corfforol i blant ysgol, gan hysbysu'r Bwrdd ynghylch y gwaith gydag ysgolion a llysgenhadon ifanc i ddylanwadu ar y meysydd dysgu mewn perthynas ag iechyd a llesiant ar gwricwlwm ysgolion.
- sicrhau bod chwaraeon ar gyfer pawb. Ystyriodd y Bwrdd gyflwyniad fideo yn dangos sut mae Chwaraeon Cymru a'i bartneriaid yn anelu at wella llythrennedd corfforol cymunedau ac ysbrydoli newidiadau mewn ymddygiad ar draws pob sbectrwm oedran.
- sefydlu rôl arweinyddiaeth system a rennir, a gwella partneriaethau strategol gydag Iechyd Cyhoeddus Cymru, Cyfoeth Naturiol Cymru a'r Trydydd Sector ynghylch yr agenda atal.

Myfyriodd y Bwrdd ar fanteision gweithgaredd corfforol o ran diogelu iechyd a mynd i'r afael â lefelau gordewdra a'r cysylltiadau posibl â'r rhaglen Y 1000 Diwrnod Cyntaf, ymysg meysydd eraill. Ailgadarnhaodd y Bwrdd bwysigrwydd ymgysylltiad diwylliannol a chymunedol ar draws amrywiaeth eang o grwpiau demograffig; y cyfleoedd i wella ymgysylltiad â'r rhwydwaith o hybiau chwaraeon cymunedol ledled Cymru mewn modd cynaliadwy; a datblygu arsyllfa wybodaeth i ymchwilio ymhellach i effaith gweithgaredd corfforol ar iechyd. Aeth aelodau'r Bwrdd ymlaen i drafod yr agenda newid ymddygiad, y ffocws pwysig ar amgylcheddau egniol ac iach, a mynegai posibl o leoedd lle mae'n bosibl cynnal chwaraeon.

Ystyriodd y Bwrdd hefyd y gwerth a'r cyfleoedd mewn perthynas â hyrwyddo chwaraeon rhwng y cenedlaethau, yn enwedig y cysylltiad â llythrennedd corfforol yn ystod y blynyddoedd cynnar a diwrnodau ysgol gwell er mwyn creu amgylcheddau effeithiol.

Eglurodd TC y byddai cyfarfod strategol Grŵp Cydlynu Creu Iachach gyda Chwaraeon Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystyried heriau lleol a rhanbarthol, a datblygiad system olrhain systematig ar draws tri maes strategol, y mae un ohonynt yn anelu at leihau anweithgarwch corfforol.

|  |
|--|
| <p>Diolchodd y Bwrdd i LC a SaP am eu cyflwyniad ysbrydoledig gan nodi ei fod yn edrych ymlaen at barhau i gydweithio yn 2020/21.</p> <p>Nododd y Bwrdd y bwriad i gynnal sesiwn drylwyr ar Flaenoriaeth Strategol 3 yn ei gyfarfod ym mis Tachwedd 2019.</p> <p><b>Camau gweithredu: TC/JA</b></p> <p style="text-align: center;"><i>Gadawodd LC a SaP y cyfarfod am 10:10</i></p>  |
| <p><b>PHW56/2019 Cofnodion Cyfarfod y Bwrdd a Gynhaliwyd ar 25 Gorffennaf 2019</b></p>   |
| <p><b>Cymeradwyodd</b> y Bwrdd y cofnodion fel cofnod cywir o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Gorffennaf 2019 (<a href="#">cyf 4.1.260919</a>).</p>  |
| <p><b>PHW57/2019 Cofnod o Gamau Gweithredu'r Bwrdd</b></p>   |
| <p><b>Nododd</b> y Bwrdd y Cofnod Gweithredu (<a href="#">cyf 4.2.260919</a>) a'r tri cham gweithredu agored. <b>Cymeradwyodd</b> y Bwrdd y cam o derfynu'r camau gweithredu y nodwyd eu bod wedi'u cwblhau.</p>   |
| <p><b>PHW58/2019 Materion yn Codi</b></p>  |
| <p>Nid oedd unrhyw faterion yn codi.</p>   |
| <p><b>PHW59/2019 Adroddiad y Prif Weithredwr</b></p>   |
| <p style="text-align: center;"><i>Ymunodd MB a LM â'r cyfarfod am 10:20</i></p> <p><b>Derbyniodd</b> y Bwrdd Adroddiad y Prif Weithredwr (<a href="#">cyf 5.260919</a>).</p> <p>Darparodd QS ddiweddariad ynghylch datblygiad y Gwasanaeth Diogelu Iechyd Cenedlaethol, a nododd fwriad Llywodraeth Cymru i fuddsoddi cyllid ychwanegol i gryfhau'r gwasanaethau Diogelu Iechyd.</p> <p>Darparodd QS ddiweddariad ynghylch yr achos diweddar o Glefyd y Llengfilwyr a adroddwyd yn y cyfryngau ac ailgadarnhaodd y bwriad i sicrhau y byddai aelodau'r Bwrdd yn derbyn datganiadau i'r wasg cyn i unrhyw sylw gael ei wneud yn y cyfryngau. Cyfeiriodd aelodau'r Bwrdd at yr adolygiad sy'n cael ei gynnal o drefniadau uwchgyfeirio ac adrodd mewnol Iechyd Cyhoeddus Cymru hyd at lefel y Bwrdd.</p> <p><b>Camau gweithredu: TC / QS</b></p> <p>Darparodd QS ddiweddariad ynghylch yr achos o Dwbercwlosis yn Llwynhendy, Sir Gaerfyrddin, a chadarnhaodd fod cam 2 o'r rhaglen sgrinio gymunedol ar waith, gyda thriniaeth yn cael ei chynnig i gleifion fel sy'n briodol. Cadarnhaodd QS hefyd y bwriad i gynnal ymarfer dysgu.</p> <p>Tynnodd TC sylw'r Bwrdd at y Rhaglen Llysgenhadon Ifanc a gofynnodd am ragor o fanylion ynghylch pryd y bydd y Llysgenhadon Ifanc yn cael eu hethol i fynychu cyfarfodydd y Bwrdd.</p> <p><b>Camau gweithredu: RBW</b></p> <p>Rhoddodd MB ddiweddariad i'r Bwrdd ynghylch y gweithdy Asesu Effaith Iechyd, a gynhaliwyd mewn cydweithrediad â Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol i</p> |

ystyried yr heriau a'r cyfleoedd strategol mewn perthynas â throsglwyddo o'r Undeb Ewropeaidd. Cytunodd MB y byddai'n darparu briff wedi'i ddiweddarau i'r Bwrdd.

**Camau gweithredu: MB**

Cadarnhaodd MB fwriad y British Medical Journal i gyhoeddi llythyr yn amlinellu Aseiad o Effaith ar Iechyd a gynhaliwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ar *Oblygiadau Brexit i Iechyd Cyhoeddus yng Nghymru*.

Aeth MB yn ei flaen i roi diweddariad i'r Bwrdd ynghylch y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth arfaethedig rhwng Llywodraeth Cymru a Sefydliad Iechyd y Byd ar gyfer Buddsoddi mewn Iechyd a Llesiant, er mwyn gwella cydraddoldeb a lleihau anghydraddoldebau o ran iechyd y boblogaeth. Byddai'r Bwrdd yn derbyn y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth drafft.

**Camau gweithredu: HB**

Tynnodd TC sylw'r Bwrdd at adroddiad Iechyd Cyhoeddus Cymru ar effaith niweidiol posibl gadael yr Undeb Ewropeaidd ar iechyd a llesiant cymunedau ffermio, gydag adroddiad tebyg ynghylch yr effaith bosibl ar gymunedau pysgota i ddilyn.

Llongyfarchodd y Bwrdd Sarah Morgan, y Rheolwr Amrywiaeth a Chynhwysiant, a'i thîm am lwyddo i gael achrediad fel Arweinwyr sy'n Hyderus o ran Anabledd. Cydnabu'r Bwrdd fod yr achrediad yn dangos y cynnydd sylweddol a wnaed yn erbyn yr agenda cydraddoldeb ac amrywiaeth ehangach.

Diolchodd y Bwrdd i TC am ei hadroddiad.

**PHW60/2019 Adroddiad Integredig ar Berfformiad**

**Derbyniodd** y Bwrdd yr adroddiad ar berfformiad ([cyf 6.1.260919](#)).

**Nododd** y Bwrdd y sesiwn Datblygu'r Bwrdd arfaethedig ynghylch diweddarau a mireinio'r canlyniadau mesuradwy presennol, sy'n gysylltiedig â'r gwaith sydd ar y gweill ynghylch rôl y Bwrdd llawn a'r Pwyllgorau mewn perthynas ag adolygu canlyniadau ac effaith.

**Blaenoriaethau strategol**

**Nododd** y Bwrdd y cynnydd sy'n cael ei wneud ar draws yr holl flaenoriaethau strategol.

Cadarnhaodd DB y byddai Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cyflwyno ymateb cynhwysfawr i ymgynghoriad presennol yr Adran Gwaith a Phensiynau ynghylch hyblygrwydd posibl ar gyfer cynllun pensiwn y GIG.

**Camau gweithredu: PB****Perfformiad Ariannol**

**Ystyriodd** y Bwrdd berfformiad ariannol y sefydliad, gan nodi bod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol hefyd wedi adolygu'r sefyllfa yn ei gyfarfod ar 25 Medi 2019.

Myfyriodd y Bwrdd ar dargedau arbedion y Rhaglen Effeithlonrwydd Sefydliadol. Nododd y Bwrdd y diffyg o ran y cyflawniad disgwyliadwy yn erbyn dwy elfen o arbedion yn ymwneud â ffrwd waith y gweithlu a cheisiodd sicrwydd pellach ynghylch y cyflawniad yn erbyn y tair ffrwd waith sy'n weddill. Cynghorodd PB fod y Cynllun Aberthu Cyflog ar y trywydd cywir o ran cyflawni'r arbedion angenrheidiol. Nododd PB ei hyder ynghylch y ffaith y byddai'r Arolwg Sefydliadol yn dod â digon o fudd i gyrraedd y targed a chadarnhaodd ei fwriad i adolygu hyn.

### **Camau gweithredu: PB**

#### **Datblygu Sefydliadol a Phobl**

Nododd PB y camau gweithredu sydd ar waith i wella sut y mae data arfarnu'r cyfarwyddiaethau'n cael eu casglu. Cyfeiriodd y Bwrdd at bwysigrwydd yr arfarniadau o ran datblygiad a pherfformiad staff a'r gydnabyddiaeth y maent yn ei chael. **Edrychodd** y Bwrdd am welliant sylweddol yn y dull o adrodd ar yr arfarniadau canol blwyddyn. Dywedodd TC fod holl aelodau'r tîm gweithredol wedi cael y targed cwblhau arfarniadau fel amcan.

### **Camau gweithredu: PB**

#### **Ansawdd**

**Nododd** y Bwrdd y perfformiad yn erbyn Gweithio i Wella, a'r diweddariad arfaethedig i'r trefniadau adrodd ar ddigwyddiadau.

**Ystyriodd** y Bwrdd yr adroddiad a chymerodd **sicrwydd** o berfformiad y sefydliad ar ddiwedd mis Awst 2019.

Holodd y Bwrdd ynghylch y broses o ailgyflwyno diweddariadau cynnydd sydd yr un fath ym mhob cyfarfod. Gwnaeth HG sylw ynghylch y ffordd y mae arweinwyr y cyfarwyddiaethau yn dilysu'r adroddiadau. Cyfeiriodd QS at yr amserlen heriol ar gyfer diweddaru'r adroddiad, a'r amserlen hir ar gyfer rhai o'r camau gweithredu. Cadarnhaodd ei fwriad i wella'r naratif a ddarperir yn yr adroddiad, sy'n cadarnhau'r pwynt ei bod yn bosibl nad yw'r camau gweithredu tymor hwy yn amrywio llawer o fewn y flwyddyn.

### **Camau gweithredu: QS**

Myfyriodd y Bwrdd ar y pwynt pwysig mewn perthynas â diweddariadau cynnydd ystyrllon, gan nodi bod cyfarfodydd y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella yn cynnal sesiynau craffu manwl yn rheolaidd ynghylch y cyflawniadau yn erbyn pob un o'r rhaglenni sgrinio.

Gwnaeth y Bwrdd sylwadau ynghylch yr adran 'gwelliannau mewn perfformiad', gan gynghori y byddai adran 'pryderon' ychwanegol yn darparu trosolwg cytbwys.

Ailgadarnhaodd y Bwrdd y bwriad i ystyried llif gwybodaeth lefel uchel i'r Bwrdd a'r Pwyllgorau yn Niwrnod Datblygu nesaf y Bwrdd.

### **Camau gweithredu: HB**

**PHW61/2019 Diweddariad ar Effaith Gadael yr Undeb Ewropeaidd***Ymunodd JI a SM â'r cyfarfod am 11:40*

**Derbyniodd** y Bwrdd y diweddariad ar yr adroddiad ynghylch Effaith Gadael yr Undeb Ewropeaidd (UE). ([cyf 6.2.260919](#)).

Amlygodd QS y gweithgareddau sy'n cefnogi pa mor barod yw'r sefydliad ar gyfer gadael yr UE, gan gynnwys diwygio'r cynlluniau dilyniant. Cyfeiriodd QS hefyd at y berthynas weithio agos gyda Llywodraeth Cymru a gwledydd eraill y DU, yn enwedig mewn perthynas â diogelu iechyd.

Cyfeiriodd y Bwrdd at oblygiadau posibl gadael yr UE i iechyd meddwl y boblogaeth, a rôl y sefydliad o ran cefnogi problemau iechyd y boblogaeth. Amlygodd QS ac MB y gwaith ymchwil yn y maes hwn, gan nodi y byddai angen dull gwell ar draws y system i wneud ymchwil mwy manwl, sydd y tu hwnt i Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Gofynnodd aelodau'r Bwrdd ynghylch y mesurau sydd ar waith i gefnogi staff os bydd BREXIT 'heb gytundeb' yn digwydd, gan gynnwys cyngor ynghylch cyrraedd y gwaith os bydd y cyflenwadau tanwydd yn cael eu heffeithio. Holodd aelodau'r Bwrdd hefyd ynghylch y dulliau cyfathrebu a'r cymorth a ddarperir i deuluoedd aelodau'r staff. Crynhodd PB y cyngor a roddwyd hyd yma a chytunodd i ddarparu rhagor o wybodaeth yn Niwrnod Datblygu'r Bwrdd ym mis Hydref.

**Camau gweithredu: PB**

Cytunodd y Bwrdd y dylai'r paratodau ar gyfer gadael yr UE fod yn eitem bwysig ar raglen y diwrnod datblygu ym mis Hydref.

**Camau gweithredu: TC / QS**

Rhoddwyd **sicrwydd** i'r Bwrdd ynghylch pa mor barod yw Iechyd Cyhoeddus Cymru ar gyfer gadael yr UE.

**PHW62/2019 Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd**

**Derbyniodd** y Bwrdd Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd ([cyf 7.1.260919](#))

Rhoddodd HB grynodedb o'r gwaith sydd ar y gweill i ddiwygio Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd. Byddai hyn yn cynnwys arolwg o'r holl risgiau a gyflwynir ar hyn o bryd, ynghyd ag asesiad o'r dull gweithredu cyfan ar gyfer sicrwydd ansawdd a'r trefniadau adrodd.

Mewn perthynas â'r risgiau fel y'u hadroddwyd, nododd y Bwrdd:

- y gwaith o ailfodelu risg 2 fel blaenoriaeth, i'w gyflwyno yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Tachwedd 2019. Byddai'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol yn goruchwylio'r broses o gydymffurfio ag amserlenni'r polisiau i Gymru gyfan.

**Camau gweithredu: HB**

- cwblhau'r holl argymhellion a dderbyniwyd yn erbyn risg 3.3, Darparu'r Rhaglen Sgrinio ar gyfer y Dyfodol. Cytunodd QS i rannu'r adroddiad terfynu gyda'r Bwrdd.

**Camau gweithredu: QS**

- diwygio risg 5 yn dilyn derbyn cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, a'r datblygiadau Creu Cymru Iachach.
- yr angen i wneud cynnydd o ran sefydlu'r Fforwm Cyngori ar Dechnoleg ar fyrder ac o fewn y flwyddyn ariannol hon.

**Camau gweithredu: JB**

Nododd y Bwrdd fod y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol wedi ystyried yr adroddiad y diwrnod blaenorol, ond nid mor fanwl ag y cafodd ei drafod yng nghyfarfod y Bwrdd. Byddai Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd, sydd wedi'i ddiwygio, yn nodi'r berthynas rhwng y Bwrdd a'r Pwyllgorau mewn perthynas ag adrodd ynghylch Risg Strategol. Byddai hefyd yn canolbwyntio ar fwy o atebolrwydd drwy gynllun gweithredu gwell.

**Camau gweithredu: HB/RBW**

**Penderfynodd** y Bwrdd gymeradwyo'r dyddiadau diwygiedig a nodwyd yn yr adroddiad, ac eithrio'r rhai a nodwyd ar gyfer risg 2.

**PHW63/2019 Diweddariad ar GIG Cymru /Newidiadau i raglenni**

*Ymunodd PW â'r cyfarfod am 12:00*

**Gweithrediaeth GIG Cymru**

**Derbyniodd** y Bwrdd Ddiweddariad gan Weithrediaeth GIG Cymru ([cyf 7.2.1.260919](#)).

**Ystyriodd** y Bwrdd fwriad Llywodraeth Cymru i greu Swyddogaeth Weithredol ar gyfer y GIG yng Nghymru, y goblygiadau posibl i Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r 162 o aelodau o staff a fyddai'n cael eu heffeithio.

Cyfeiriodd JB at y cymorth a roddwyd i'r staff sy'n cael eu heffeithio gan y symud; roedd yn falch o'r ffordd yr oedd y tîm wedi ymateb i'r newyddion, gan ystyried ei fod yn darparu cyfle i ddiwygio ac adfywio gwelliant yng Nghymru. Cytunodd i amlinellu'r gwasanaethau y gallai Gwelliant Cymru eu cynnig mewn sesiwn Datblygu'r Bwrdd yn y dyfodol.

**Nododd** y Bwrdd y byddai'r Cyfarwyddiaethau Pobl a Datblygu Sefydliadol a Gweithrediadau a Chyllid yn goruchwylio'r holl oblygiadau adnoddau dynol / cyllid yn y drefn honno.

Trafododd y Bwrdd sut y byddai trefniadau llywodraethu Gweithrediaeth y GIG yn ategu trefniadau llywodraethu'r Byrddau statudol presennol.

Diolchodd y Bwrdd i JB am ei arweinyddiaeth a'i gefnogaeth yn ystod y broses

arfaethedig o drosglwyddo gwasanaethau i Weithrediaeth y GIG, gan nodi fod y gwasanaeth wedi arwain at symudiad cymdeithasol o gydweithwyr yn y GIG, Llywodraeth Cymru a'r Gwasanaethau Cymdeithasol, er mwyn cefnogi gwelliant ac arloesedd.

### **Dim Smygu Cymru – Trosglwyddo Staff i'r Byrddau Iechyd**

**Derbyniodd** y Bwrdd Ddiweddariad ynghylch Trosglwyddo Staff o Dim Smygu Cymru i'r Byrddau Iechyd ([cyf 7.2.1.260919](#)). Wrth gyflwyno'r adroddiad, rhoddodd JA grynodedb o'r Gwasanaethau Rhoi'r Gorau i Smygu wyneb-yn-wyneb sydd i'w trosglwyddo i Fyrddau Iechyd GIG Cymru, gan nodi'r swyddogaethau hynny a fyddai'n aros o fewn cylch gwaith Iechyd Cyhoeddus Cymru.

**Derbyniodd** y Bwrdd sicrwydd ynghylch y cynlluniau priodol ar gyfer y trosglwyddiad drwy ymgysylltiad â'r Byrddau Iechyd a'r staff yr effeithiwyd arnynt.

Diolchodd y Bwrdd i'r tîm Dim Smygu Cymru a'r byrddau iechyd am eu cefnogaeth yn ystod y gwaith o baratoi i drosglwyddo'r gwasanaethau. Penderfynodd y Bwrdd y byddai'n anfon llythyrau personol at yr holl aelodau o staff yr effeithiwyd arnynt.

**Camau gweithredu: JA/JW/TC**

*Gadawodd PW y cyfarfod am 12:25*

### **PHW64/2019 Cadarnhau Camau Gweithredu'r Cadeirydd a Gosod y Sêl Gyffredin**

**Derbyniodd** y Bwrdd yr adroddiad yn Cadarnhau Camau Gweithredu'r Cadeirydd ac yn Gosod y Sêl Gyffredin ([cyf 7.3.2.260919](#))

**Cadarnhaodd** y Bwrdd gamau gweithredu'r Cadeirydd i:

- **gymeradwyo** cytundeb setliad terfynol ar sail cyflogaeth;
- **cymeradwyo** estyniad i'r cytundeb ar gyfer y prosiect ICNet.

### **PHW65/2019 Adroddiad Cyfansawdd Cadeiryddion y Pwyllgorau**

**Derbyniodd** y Bwrdd yr adroddiad cyfansawdd gan Gadeiryddion y Pwyllgorau ([cyf 7.4.1.260919](#)).

### **Y Pwyllgor Ansawdd, Diogelwch a Gwella**

Cyflwynodd KE yr adroddiad o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 06 Awst 2019, gan gyfeirio'n benodol at gynllun Archwiliad Clinigol 2019-20. Cadarnhaodd RBW fod y cynllun archwilio diwygiedig yn adlewyrchu'r holl gyfarwyddiaethau.

### **Y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Corfforaethol**

Cyflwynodd DE yr adroddiad o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 29 Mai 2019, gan gyfeirio'n benodol at y statws sicrwydd 'melyn' yn dilyn asesiad blynyddol y Gwasanaeth Atal Twyll. Cyfeiriodd HG at y camau a gymerwyd i sicrhau perfformiad gwell, a oedd yn cynnwys rhaglen lawn o sesiynau atal twyll a phresenoldeb yn nigwyddiadau cynefino'r sefydliad.

Dywedodd DE hefyd fod y Pwyllgor, yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Medi 2019, wedi adolygu nifer o adroddiadau archwilio mewnol, ac roedd gan bob un ohonynt statws sicrwydd cadarnhaol.

### **Y Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd**

Cyflwynodd ShP yr adroddiad o'r cyfarfod a gynhaliwyd ar 24 Gorffennaf 2019, gan wneud sylw am ehangder y gwaith sy'n cael ei wneud gan y Gyfarwyddiaeth Wybodaeth; ei chysylltiadau â chyfarwyddiaethau a'i aliniad â blaenoriaethau strategol y sefydliad.

Penderfynodd y Bwrdd **nodir** adroddiad gan Gadeiryddion y Pwyllgorau, a'r camau gweithredu a nodwyd.

### **Y Pwyllgor Gwybodaeth, Ymchwil a Hysbysrwydd**

**Derbyniodd** y Bwrdd Gylch Gorchwyl y Pwyllgor Gwybodaeth ac Ymchwil ([cyf 7.4.2.260919](#)).

Wrth ystyried y Cylch Gorchwyl diwygiedig, cydnabu'r Pwyllgor bwysigrwydd ansawdd a sicrwydd data, yn fewnol ac yn allanol. Penderfynodd y Pwyllgor **gymeradwyo'r** Cylch Gorchwyl, yn amodol ar y gwelliant a ganlyn mewn llythrennau du.

"Diben y Pwyllgor Gwybodaeth ac Ymchwil yw darparu cyngor a sicrwydd i'r Bwrdd mewn perthynas ag ansawdd ac effaith ein gwybodaeth, gwybodaeth iechyd a hefyd ansawdd y data a'r trefniadau llywodraethu gwybodaeth o fewn y sefydliad ac **ar draws y sector, lle bo hynny'n berthnasol**".

Cytunodd y Bwrdd y dylid aildosbarthu'r Cylch Gorchwyl diwygiedig ymysg aelodau'r Pwyllgor Gwybodaeth ac Ymchwil.

### **Camau gweithredu: HB**

#### **PHW66/2019 Dyddiad y cyfarfod nesaf**

28 Tachwedd 2019 am 09.00 i'w gynnal yn Iechyd Cyhoeddus Cymru, 2 Capital Quarter, Stryd Tyndall, Caerdydd. CF10 4BZ.

Daeth JW â'r cyfarfod cyhoeddus i ben, gan egluro'r rhesymau dros gynnal y cyfarfod dilynol mewn sesiwn breifat.

*Daeth y Sesiwn Gyhoeddus i ben am 12.35*

**Cyfarfu'r Bwrdd mewn Sesiwn Breifat i ystyried busnes o natur gyfrinachol, y byddai cyhoeddusrwydd amdano yn niweidiol i fuddiannau cyhoeddus yn unol ag Adran 1(2) o Ddeddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960.**